## Swydd Ddisgrifiad: Swyddog Prosiect Sîn ar y Ffin

## Menter Iaith Fflint a Wrecsam

**Cefndir**

Mae Mentrau Iaith yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn eu cymunedau lleol. Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, ac erbyn hyn mae 22 Menter Iaith yn gwasanaethu pob rhan o Gymru. Lleolir swyddfa **Menter Iaith Fflint a Wrecsam** yn yr Wyddgrug, ac rydym yn gweithio ym mhob ardal o siroedd y Fflint a Wrecsam. Ar hyn o bryd mae'r Fenter yn cyflogi 6 aelod o staff.

**Gwaith Menter Iaith Fflint a Wrecsam**

Mae'r Mentrau Iaith yn un o bartneriaid allweddol Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu ar lawr gwlad i wireddu amcanion **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** – sydd yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae pob Menter Iaith yn gweithredu mewn ffordd unigryw yn ddibynnol ar anghenion lleol. Ein prif feysydd gwaith yma yn siroedd y Fflint a Wrecsam yw:

**Teuluoedd**: Mae ein gweithgareddau a phrosiectau yn annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref, tynnu sylw at fanteision dewis Addysg Gymraeg, a chefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal a chwarae.

**Plant a Phobl Ifanc**: Rydym yn gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth hamdden a chymunedol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol tu allan i'r ysgol.

**Y Gymuned**: Trwy gydweithio â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn eu cymunedau eu hunain rydym yn gweithio i gryfhau'r iaith fel iaith gymunedol, naturiol.

**Nod y Prosiect:**

Bwriad y prosiect yw creu rhwydwaith o bobl ifanc fydd, gyda chymorth y Fenter, yn arwain ar drefnu gigs, perfformiadau, gweithdai, sesiynau, ac ymgyrchoedd i hyrwyddo'r sîn gerddoriaeth Gymraeg gan roi profiadau celfyddydol o safon i blant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Mi fydd y prosiect yn cwmpasu codi ymwybyddiaeth sylfaenol am gerddoriaeth Cymraeg, yn hwyluso mynediad at gerddoriaeth Gymraeg yn yr ardal ac yn sicrhau bod cerddoriaeth Gymraeg yn gynyddol weledol ar gyfryngau cymdeithasol, mewn ysgolion lleol, mewn gwyliau a digwyddiadau cymunedol ac yn y cartref.

**Prif Gyfrifoldebau:-**

- Arwain a chynorthwyo pobl ifanc hŷn o fewn Ysgolion Uwchradd Cymraeg y Sir i gynllunio rhaglen o berfformiadau cerddorol, gigs ac ymgyrchoedd i hyrwyddo'r sîn gerddoriaeth Cymraeg yn y ddwy ysgol uwchradd ac yn gymunedol.
- Paratoi a chynnal sesiynau / clybiau i gyflwyno cerddoriaeth cyfoes Cymraeg i blant a phobl ifanc iau, gan gynnwys dysgu a thrafod artistiaid a bandiau newydd, creu rhestrau chwarae, a canfod cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd sy'n berthnasol i'r pwnc.
- Hyrwyddo'r prosiect o fewn Ysgolion Uwchradd y ddwy Sir.
- Cydweithio gyda phartneriaid i gyrraedd pobl ifanc a all fod a diddordeb yn y prosiect
- Rhwydweithio a chreu cysylltiadau gyda sefydliadau lleol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i fobl ifanc brofi a chlywed cerddoriaeth Cymraeg mewn gwyliau a digwyddiadau cyhoeddus.
- Cynorthwyo i greu a pharatoi deunyddiau marchnata a datblygu ymgyrchoedd marchnata penodol fel bo'r angen.
- Cynorthwyo'r Swyddog Busnes i reoli gwariant cyllideb y prosiect.
- Monitro a gwerthuso'r prosiect
- Gweithio gyda staff eraill Menter Iaith Fflint a Wrecsam i drefnu a chynnal gigs a gweithgareddau blaengar a phoblogaidd sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol a hwyliog;
- Paratoi ceisiadau am nawdd ar gyfer datblygu'r prosiect.

O bryd i'w gilydd bydd angen i chi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol i hyn yn unol â gofynion cyffredinol y swydd.

**<u>Telerau'r Swydd</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog**: | Cyflog: £26,000 pro rata + cyfraniad pensiwn cyfatebol hyd at 6% |
| **Costau Teithio**: | Telir costau teithio o 65c y filltir. |
| **Oriau Gwaith**: | 14.8 awr yr wythnos, ond mae'r Fenter yn gweithredu polisi gweithio hybrid ynghyd â phatrymau gwaith hyblyg. Bydd disgwyl i'r sawl a benodir weithio oriau anghymdeithasol yn unol â galwadau gwaith o bryd i'w gilydd. Croesewir ceisiadau gan bobl sydd am weithio llai o oriau neu rannu'r swydd. |
| **Gwyliau**: | 28 diwrnod (pro rata) y flwyddyn i ddechrau ond yn cynyddu ar raddfa'n seiliedig ar hyd gwasanaeth (yn ogystal â gwyliau banc). |
| **Hyd y Contract**: | Cynigir cytundeb hyd at 31ain Awst 2027, yn amodol ar adolygiad perfformiad boddhaol ar ôl chwe mis. Bydd cynaladwyedd y swydd yn ddibynnol ar sicrhau cyllid digonol yn y dyfodol. |
| **Strwythur Rheoli:** | Byddwch yn gweithio o dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Byddwch yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Fflint a Wrecsam. |
| **Rhybudd Terfynu Swydd:** | 1 mis |
| **Lleoliad:** | Lleolir swyddfeydd y Fenter yng Nghorlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP . |

**Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:**

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:**

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Amodau:**

Bydd unrhyw gynnig yn amodol ar gliriad uwch DBS.

**Adolygiad:**

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Awst 2025 ac fe'i adolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Manylion Person:  Swyddog Prosiect Y Sîn ar y Ffin Menter Iaith Fflint a Wrecsam**

**Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

**Hanfodol:**

- Dealltwriaeth o waith ac amcanion Menter Iaith Fflint a Wrecsam a'i weledigaeth ynglŷn â lledaenu defnydd y Gymraeg yn siroedd y Fflint a Wrecsam a Chymru gyfan.
- Brwdfrydedd dros y Gymraeg a diwylliant Cymru.
- Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y sîn gerddoriaeth Gymraeg.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da â'r gallu i siarad Cymraeg a Saesneg.
- Y gallu i ymwneud ag ystod eang iawn o wahanol bobl ac yn arbennig pobl ifanc.
- Y gallu i weithio'n drefnus unai fel rhan o dîm neu heb gyfarwyddyd uniongyrchol.
- Y gallu i weithio mewn partneriaeth gyda chyrff/mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Yr hyder i greu cyfleoedd newydd gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Sgiliau cyfrifiadurol da.
- Sgiliau rheoli amser da.
- Parodrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd os fo angen.
- Trwydded yrru lawn a defnydd car.

**Dymunol:**

- Profiad o drefnu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau – fel rhan o swydd neu'n wirfoddol.
- Profiad o weithio gyda phlant neu bobl ifanc.
- Profiad o waith gweinyddol.
- Cymhwyster neu brofiad mewn marchnata.
- Profiad o ysgrifennu cynnwys ar gyfer gwefan a / neu gyfryngau cymdeithasol.
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a chyfleoedd i weithio mewn  partneriaeth â chyrff/mudiadau eraill i'w llenwi.
- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid.

- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a/neu Gymorth Cyntaf.
- Hyfforddiant Asesu Risg (Off-Site Safety) a/neu brofiad o lunio a darparu asesiadau risg ag ymwybyddiaeth o brosesau Iechyd a Diogelwch.
- Profiad o ddatblygu a rheoli prosiectau a'u gwerthuso.